

CAFFAEL TIR, PRIFFYRDD, CYMRU

2009 Rhif 51

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU (CEFNNFFORDD
CAERDYDD I LANCONWY (YR A470) CWM-
BACH I'R BONTNEWYDD AR WY) 2009**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

Wedi'i wneud 31 Rhagfyr 2009

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir "yr awdurdod caffael" yn y Gorchymyn hwn) yn gwneud y Gorchymyn canlynol-

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 254 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) fel y'i hestynnwyd ac fel y'i hategwyd gan adran 250 o'r Ddeddf honno ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981(2) a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 Atodlen 2 iddi, a phob pŵer galluogi arall(3) wedi'i awdurdodi drwy hyn i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir ym mharagraff 2 er mwyn:

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd i'r gogledd-orllewin o Lanfair-ym-Muallt i fan ychydig i'r de o'r Bontnewydd ar Wy, oll yng nghymunedau Llanellwedd, Diserth a Thre-coed, a Llanllŷr yn Sir Powys, yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yn y cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (c) gwella'r Gefnffordd yn y cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd;
- (ch) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;
- (d) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag adeiladu a gwella'r priffyrdd hynny a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod; ac

(dd) lliniaru effeithiau andwyol priffyrdd neu briffyrdd arfaethedig ar eu hamgylchoedd.

Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl ill dau ynghyd â'r planiau sy'n mynd gyda hwy wedi'u hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn Erthygl 5.

2. Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch ar y map a chaiff yr hawliau newydd dros dir sydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn eu disgrifio yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ac ymyl coch ar y map a enwyd.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau a enwyd o'r Atodlen a enwyd at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w hadeiladu arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythien o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith sydd i'w godi ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythien o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 metr, p'un bynnag yw'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y gefnffordd” (*“the trunk road”*) yw Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470);

ystyr “y gefnffordd newydd” (*“the new trunk road”*) yw'r gefnffordd sydd i'w hadeiladu yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;

ystyr “y Gorchymyn Cefnffordd” (*“the Trunk Road Order”*) yw Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) 2009.

ystyr “y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl” (*“the Side Roads Order”*) yw Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) (Ffyrdd Ymyl) 2009;

ystyr “y map” (*“the map”*) yw'r map sydd wedi'i farcio “Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion

Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) 2009” ac a lofnodwyd gan swyddog i'r awdurdod caffael, a'i selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael a'i adneuo yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) 2009.

Dilysir SÊL GYFFREDIN GWEINIDOGION
CYMRU a osodir yma gan

Llofnodwyd gan un o swyddogion Llywodraeth
Cynulliad Cymru ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig 31 Rhagfyr 2009

(1) 1980 p.66

(2) 1981 p.67

(3) Yn rhinwedd O. S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.